Annwyl Cwsmer

**Swyddfa Bost® Dinbych**
**20 Y Stryd Fawr, Dinbych, LL16 3RY**

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau, yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, y gwnaed penderfyniad i fwrw ymlaen â'r bwriad i drosglwyddo rhedeg y gangen hon i I'R DIM CYFYNGEDIG. Bydd yn parhau yn y lleoliad presennol. Mae'r newid yn cael ei wneud fel rhan o'r trefniadau parhaus i foderneiddio ein rhwydwaith er mwyn cael cynaladwyedd masnachol. Bydd hefyd yn ein helpu i ddarparu gwasanaethau a fydd yn ateb gofynion cwsmeriaid ac yn diogelu gwasanaeth yn Ninbych, yn awr ac yn yr hirdymor.

**Ymateb o'r ymgynghoriad cyhoeddus**
Yn ystod y cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus, cawsom 4 o ymatebion unigol gan gwsmeriaid a chynrychiolwyr lleol. Roedd y rhain yn ymwneud â newid statws y gangen i fod yn gangen sy'n cael ei rhedeg gan bartner manwerth. Cynhaliwyd fforwm i gwsmeriaid a buom mewn cyfarfod o Gyngor Tref Dinbych i siarad am ein cynlluniau ac i ateb cwestiynau.

Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth i ni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr yn well a chafodd hyn ei ystyried, ynghyd â ffactorau eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad.

**Cangen newydd Swyddfa'r Post yn Ninbych**
Mae I'R DIM CYFYNGEDIG yn bwriadu ad-drefnu'r adeilad presennol yn helaeth er mwyn cael cangen Swyddfa'r Post fodern mewn siop sy'n gwerthu cardiau, anrhegion a deunydd cyfathrebu.

Mae'r mynediad i'r adeilad yn wastad gyda drysau awtomatig, ac mae eisoes yn bodloni safonau hygyrchedd Swyddfa'r Post a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Byddwn yn cydweithio â'r gweithredydd newydd i wneud yn siŵr fod yna lwybrau llydan dirwystr a digon o le i holl gwsmeriaid Swyddfa'r Post, gan gynnwys defnyddwyr cadair olwyn, symud o gwmpas y siop a chyrraedd y Swyddfa Bost yn rhwydd. Y tu allan, y tu flaen i'r adeilad, bydd yna arwyddion Swyddfa'r Post ynghyd â bwrdd â rhestr o'r oriau agor. Gosodir arwyddion i ddangos y ffordd i gwsmeriaid o'r fynedfa, drwy'r siop ac i mewn i'r lle a neilltuwyd ar gyfer y Swyddfa Bost.

Bydd cownter y Swyddfa Bost yn cael ei adeiladu yn unol â rhagofynion Swyddfa'r Post, gan gynnwys cownteri isel, padiau PIN a dolenni clyw. Hefyd, bydd digon o le i bobl aros eu tro am wasanaeth, a bydd yna seddau i gwsmeriaid.

Bydd gan y gangen newydd dri man gwasanaeth i gyd, sef un â sgrin a dau â chynllun agored, sy'n seiliedig ar faint o fusnes sydd ar hyn o bryd a faint a ragwelir yn y dyfodol. Rwy'n fodlon y bydd gofynion y cwsmer yn cael eu diwallu o hyd ond byddwn yn dal i gadw llygad ar y sefyllfa byddwn yn cydweithio â'n partner newydd i wneud yn siŵr fod safonau'r gwasanaeth yn cael eu cynnal. Yn dilyn y newid, bydd y Swyddfa Bost ar agor ar brynhawniau Sadwrn, fel bod mwy o ddewis o ran amser i gwsmeriaid.

**Cael hyd i gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post:**

Bydd yr un dewis eang o wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd, gan gynnwys deunyddiau Cymraeg. Bydd y staff sydd ond yn gweithio yn y Swyddfa Bost, yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwybodaeth am gynhyrchion ariannol, gan gynnwys cynilion ac yswiriannau. Gallaf hefyd gadarnhau y bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn y gangen i helpu cwsmeriaid.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig
PostOffice.co.uk

Yn ogystal, bydd gwybodaeth am gynhyrchion ar gael i gwsmeriaid i'w cymryd gyda nhw a bydd ein gwefan a llinellau cymorth arbenigol i gwsmeriaid yn darparu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael a sut i'w brynu. Mae manylion pellach am y gangen newydd, gan gynnwys yr oriau agor, ar y daflen wybodaeth amgaeedig.

**Hyfforddi ynghylch gwasanaethu cwsmeriaid a'r staff sy'n bodoli**
Mae I'R DIM CYFYNGEDIG o'r farn bod Rhwydwaith Swyddfa'r Post yn rhan hollbwysig o wasanaethau cymunedol ac rydym yn fodlon ei fod yn bartner masnachfraint priodol i redeg y gwasanaeth yn Ninbych ac wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.

Bydd y sawl a gyflogir i weithio yn  Swyddfa Bost Dinbych yn derbyn hyfforddiant yn unol â safonau uchaf Swyddfa'r Post ac, yr un fath â'r canghennau rydym yn eu rhedeg ein hunain, bydd staff y gangen yn derbyn hyfforddiant drwy'r amser ynglŷn â chynhyrchion a gwasanaethau, yn ogystal â materion cyffredinol sy'n ymwneud â rhedeg y gangen a gwasanaeth.  Bydd Rheolwyr Ardal Swyddfa'r Post yn gweithio gyda'n partner newydd a thîm y gangen i gynnig cymorth, fel y gwnânt eisoes mewn canghennau Swyddfa'r Post sy'n cael eu rhedeg gennym ni neu bartneriaid manwerth eraill.

Ynglŷn a'r tîm sy'n gweithio yn y gangen bresennol, mae gennym enw da am gefnogi ein pobl yn ystod unrhyw newid.  Fe wnawn bopeth posibl, o fewn y dewisiadau, i gael hyd i ateb a fydd yn derbyniol i bob unigolyn.


**Casgliad**
Credwn y bydd masnachfreintio'r gangen hon yn caniatáu i ni gael gwell gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned hon yn yr hirdymor ac y bydd yn gymorth i ddiogelu Rhwydwaith Swyddfa'r Post yn gyffredinol. Rydym eisoes yn rhedeg y mwyafrif helaeth o'n rhwydwaith ar sail masnachfraint neu asiantaeth a bu darparu gwasanaethau trwy'r canghennau hyn yn llwyddiannus.

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rwy'n ffyddiog y bydd y gangen newydd yn parhau i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac y bydd yn darparu gwasanaeth rhagorol, ynghyd â helpu i wneud y gangen yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol ac i gadw Swyddfa Bost yn Ninbych.

Mae'n dda gennyf gadarnhau y cafwyd cytundeb ynghylch y dyddiadau adnewyddu a bydd eich cangen newydd sbon yn agor am 09:00 ar 23 Hydref 2017. Er mwyn gallu gwneud y gwaith, bydd Swyddfa Bost Dinbych yn cau dros dro o 17:30 ar 5 Hydref 2017. Mae'n ddrwg gennyf am unrhyw anhwylustod a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn ac mae manylion am ganghennau eraill ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mae copi o'r llythyr hwn ar gael hefyd ar ein gwefan yn postofficeviews.co.uk.  Wrth gyrraedd y wefan, gofynnir ichi gofnodi'r cod ar gyfer y gangen hon: **025007**

Yr eiddoch yn gywir



**Roger Gale**
**Rheolwr Cyffredinol – Rhwydwaith y Goron a WHSmith**

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Llinell Gymorth i Gwsmeriaid:
03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments

**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun terfynol ar-lein. I'w weld, sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

Cafodd y broses gyfathrebu hon ei chytuno â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr, sef y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n cael ei gweithredu yn unol â'n Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post, a gytunwyd â nhw. Os hoffech gael copïau o'r Cod, maent ar gael mewn canghennau, neu wrth gysylltu â ni neu wrth ymweld â'n gwefan yn postofficeviews.co.uk. Os ydych o'r farn nad ydym wedi dilyn y broses yn gywir ac yn dymuno gwneud cwyn, byddwch cystal ag anfon llythyr neu ebost atom wrth ddefnyddio'r manylion cyswllt yn ein posteri a llythyrau ac esbonio pam. Byddwn yn ystyried eich cwyn ac yn rhoi ateb ichi cyn gynted â phosibl. Byddwn yn rhoi'r mannau cyswllt perthnasol ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr i chi. Felly, os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl derbyn ein hymateb, gallwch ofyn iddynt am eu cymorth.

**I gael yr wybodaeth hon mewn print bras, Braille neu sain, byddwch cystal â chysylltu â'r llinell gymorth i gwsmeriaid ar 03457 22 33 44 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

| **Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Dinbych** | |
|---|---|
| **Cyfeiriad** | **20 Y Stryd Fawr, Dinbych, LL16 3RY** |
| **Oriau agor** | Llun 09:00 – 17:30<br>Maw 09:00 – 17:30<br>Mer 09:00 – 17:30<br>Iau 09:00 – 17:30<br>Gwen 09:00 – 17:30<br>Sad 09:00 – 17:30<br>Sul Ar gau |
| **Cynhyrchion a Gwasanaethau** | Bydd yr un dewis eang o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd. |
| **Mannau gwasanaeth** | Bydd tri man gwasanaeth – un â sgrin a dau â chynllun agored. Cafodd nifer y mannau gwasanaeth eu seilio ar faint o fusnes sydd ar hyn o bryd a faint a ragwelir yn y dyfodol. |
| **Mynediad a chyfleusterau** | Bydd y mynediad yn wastad a bydd drysau awtomatig wrth y fynedfa. Ceir cownter gwasanaeth isel, desg ysgrifennu isel a dolenni clyw. |
| **Y Siop** | Cardiau, anrhegion a deunydd cyfathrebu |
| **Dyddiadau cau dros dro ar gyfer adnewyddu** | Bydd y gangen bresennol yn cau ar gyfer gwaith adnewyddu o 17.30 ddydd Iau 5 Hydref a bydd yn ailagor am 09:00 ddydd Llun 23 Hydref 2017. |

## Mannau eraill lle mae gwasanaethau Swyddfa'r Post® ar gael:

**Swyddfa Bost Townsend**
108 Y Dyffryn
Dinbych
LL16 3AP

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 06:00 – 20:00 |
| Maw | 06:00 – 20:00 |
| Mer | 06:00 – 20:00 |
| Iau | 06:00 – 20:00 |
| Gwen | 06:00 – 20:00 |
| Sad | 06:00 – 20:00 |
| Sul | 07:00 – 20:00 |

**Gwasanaethau:**
Bydd amrywiaeth o brif gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael.

**Mynediad**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a gris wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/Parcio**
Mae modd parcio ar yr heol y tu allan i'r gangen.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 0.4 milltir i ffwrdd, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Swyddfa Bost Henllan**
Stryd Dinbych
Henllan
Dinbych
LL16 5AR

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 09:00 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Maw | 09:00 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Mer | 09:00 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Iau | 09:00 – 13:00 |
| Gwen | 09:00 – 13:00<br>14:00 – 17:30 |
| Sad | 09:00 – 12:30 |
| Sul | Ar gau |

**Gwasanaethau:**
Bydd amrywiaeth o brif gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael.

**Mynediad**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/Parcio**
Mae modd parcio ar yr heol y tu allan i'r gangen.

**Llwybr**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 2.4 milltir i ffwrdd, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Swyddfa Bost Trefnant**
Siop y Pentref Trefnant
Y Sgwar
Trefnant
Dinbych
LL16 5TY

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 08:00 – 22:00 |
| Maw | 08:00 – 22:00 |
| Mer | 08:00 – 22:00 |
| Iau | 08:00 – 22:00 |
| Gwen | 08:00 – 22:00 |
| Sad | 08:00 – 22:00 |
| Sul | 09:00 – 21:00 |

**Gwasanaethau:**
Bydd amrywiaeth o brif gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael.

**Mynediad**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a gris wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/Parcio**
Mae modd parcio ar y cwrt blaen wrth ymyl y gangen.

**Llwybr:**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 3.2 milltir i ffwrdd, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Swyddfa Bost Llanrhaeadr**
Llanrhaeadr
Dinbych
LL16 4NT

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 09:00 – 17:30 |
| Maw | 09:00 – 17:30 |
| Mer | 09:00 – 13:00 |
| Iau | 09:00 – 17:30 |
| Gwen | 09:00 – 17:30 |
| Sad | 09:00 – 12:30 |
| Sul | Ar gau |

**Gwasanaethau:**
Bydd amrywiaeth o brif gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael.

**Mynediad**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/Parcio**
Mae modd parcio ar y cwrt blaen y tu allan i'r gangen.

**Llwybr:**
Mae’r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 3.5 milltir i ffwrdd, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Swyddfa Bost Llandyrnog**
Llandyrnog
Dinbych
LL16 4HG

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 09:00 – 12:00<br>13:00 – 17:30 |
| Maw | 09:00 – 12:00<br>13:00 – 17:30 |
| Mer | 09:00 – 12:30 |
| Iau | 09:00 – 12:00<br>13:00 – 17:30 |
| Gwen | 09:00 – 12:00<br>13:00 – 17:30 |
| Sad | 09:00 – 12:30 |
| Sul | Ar gau |

**Gwasanaethau:**
Bydd amrywiaeth o brif gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael.

**Mynediad**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a gris wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/Parcio**
Mae modd parcio ar yr heol y tu allan i'r gangen.

**Llwybr:**
Mae’r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 4.1 milltir i ffwrdd, ar hyd tir amrywiol ei natur.